
# LLYGAD BARCUD



CYLCHLYTHYR

## CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

RHIF 14 – HAF 2008



Gwennol o S. G. Goodrich *Animal Kingdom Illustrated Vol 2* (Efrog Newydd: Derby & Jackson, 1859)

# ADAR A'R TYWYDD

***HEFYD YN Y RHIFYN HWN –***

- DYDDLYFR NATUR INDIA
- FORSINARD
- TEITHIAU'R GYMDEITHAS

***A LLAWER, LLAWER MWY!***

## *ER BUDD ADAR A BYD NATUR*

## Golygyddol

Gwnes addewid i mi fy hun eleni y byddwn yn cadw llygad ar y gwenoliaid duon sydd wedi bod yn sgrechian o amgylch y Llan 'cw ers mis Mai, er mwyn nodi, am unwaith, pryd yn union y bydd yn rhaid i mi ffarwelio a hwy am flwyddyn arall. Ond wyddoch chi be? Unwaith eto, maent wedi llwyddo i ddiflannu' heb i mi sylwi. Buont yn llai soniarus ers tro, ac yna, un bore, sylwais nad oedden nhw o gwmpas. Allwn i ddim peidio a theimlo rhyw dinc o dristwch wrth sylweddoli fod fy nghyfeillion bychain y sylwais gymaint arnynt eleni, a gweld fel y lluosogodd eu rhengoedd a hwythau'n hwylio'r nen uwch y ty, wedi mynd am flwyddyn arall. Ydynt hwythau hefyd, tybed, yn hiraethu ac yn tristhau fod haf arall wedi llithro heibio ac wedi mynd o'u gafael? Go brin. Mae'r rhod yn cyson droi ac allwn ni wneud dim ond mynd hefo fo. Pwy a wyr pa helbulon fydd wedi dod i'w rhan hwy (a ninnau) cyn iddynt ddychwelyd y gwanwyn nesaf?!

Pleser o'r mwyaf oedd derbyn dwy erthygl yr Awst yma. Gan i mi fethu a mynd ar daith Tomos Jones ym Môn (ein harweinydd ifancaf o bell ffordd, sydd hyd yn oed yn gwneud i mi deimlo'n hen erbyn hyn!) roedd erthygl Huw Dafydd yn dangos i mi beth yr oeddwn wedi ei golli! Mi fyddai'n sicr ar daith nesaf Tomos! Yr ail i gyrraedd oedd erthygl Ieuan Bryn. Dyma gyfraniad cyntaf Ieuan i Llygad Barcud, ond nid yr olaf gobeithio, os caf i fy ffordd! Aiff iaith goeth a naratif hynod ddarllenadwy Ieuan a ni i bellafoedd yr India bell, gan ein tywys i fyd llawn adar a chreaduriaid ecsotig Parc Cenedlaethol Ranthambore, a hefyd roi ambell sylw i gyflwr y bobl – oes, mae dwy ochr i rwpî, fel y dywed Ieuan.

Hefyd yn y rhifyn hwyrol hwn, cawn ragflas o lyfr newydd hirddisgwyliedig Twm Elias ar Arwyddion Tywydd, llyfr fydd ar ei ffordd at y wasg yn fuan iawn rwan. Os oes gennych unrhyw goelion tywydd eraill am adar, nad ydynt yn y casgliad hwn yn *Llygad Barcud* hoffem ymbilio arnoch i'w hanfon atom cyn gynted ag y bo modd am y byddai cyfle i Twm eu hychwanegu at y gyfrol – felly brysiwch!

Mwynhewch y rhifyn hwn o Llygad Barcud, ac os oes un o'r erthyglau yn deffro'r awdur oddi mewn i chi yna da chi ewch ati i sgwennu ac anfon eich cynnyrch atom – efallai y bydd darllenwyr y rhifyn nesaf yn cael ysbrydoliaeth o'ch chwaith chithau! Bydd y rhifyn nesaf yn dod drwy dwll y post unwaith y bydd y coed wedi dadwisgo'u dail, a'r twrci yn barod i'w dynnu o'r oergell!



**LLYGAD BARCUD** - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

## Rhif 14 – Haf 2008

**Golygyddion** –
Rhodri Dafydd (CCGC) a Twm Elias (PTyB)

**Cyfranwyr** –
Twm Elias, Ieuan Bryn, Huw Dafydd Jones, Rhodri Dafydd

Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.

**CYMDEITHAS TED BREEZE JONES**
**Llywydd Anrhydeddus** –
Iolo Williams

**Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud*–**
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 772 610

**Trysorydd** –
Brian Paul, Ty Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500

**Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud*–**
Rhodri Dafydd, 2 Ty'n Ddôl, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7TN, (01678) 540 545

**Ysgrifennydd Aelodaeth** –
Anwen Breeze Jones, Tan y Deri, Bryn Eithin, Llandecwyn, Gwynedd LL47 6YF, (01766) 770 833

Am fwy o wybodaeth a ffurflen ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch âg Anwen Breeze Jones.

**Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.**
**Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd Hydref os gwelwch yn dda**

## Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.

Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr ***Llygad Barcud***. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth fydd yn eich galluogi i fynychu sgyrsiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl. Ond un o fanteision mawr aelodaeth o'r Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)
- **Arwyn Edwards**, Penrhyndeudraeth – 10% ar wydrau a nwyddau eraill

# Ynys Lawd a Mynydd Tŵr, Caergybi

Dydd Sadwrn, Mehefin 28ain 2008.

Huw Dafydd Jones





**Bu cryn edrych ymlaen at y daith hon i ymweld â chloglwyni ynys Lawd yn ystod tymor nythu adar y môr. Gyda Tomos Jones fel arweinydd daeth nifer o selogion y teithiau a drefnir gan Gymdeithas Ted at ei gilydd yn y maes parcio uwchlaw'r clogwyni gyda'r bwriad o gerdded drwy'r rhostir i gyfeiriad twr Elin, gwylfan yr RSPB, cyn dychwelyd dros fynydd Twr heibio i gytiau'r Gwyddelod ac yn ôl at y ceir. Yma, rhyw dair blynedd yn ôl, ar y rhostir uwchben y clogwyni gwelwyd yr ehedydd du, a phwy wyddai beth fyddai yno i'w weld ar y Sadwrn cymylog hwn.**






Adar bychan digon cyffredin welwyd yn y maes parcio, yn eu mysg y robin, ji binc, y fwyalchen a'r dryw. Adar cyffredin a welwyd hefyd ar y rhostir, sef yr ehedydd, cor-ehedydd y waun, clochdar y cerrig, a'r siglen fraith. Rhyw ddwsin o linosiaid oedd uchafbwynt y daith o'r maes parcio i ben y clogwyn. Nid oedd golwg o'r hebog tramor a arferai nythu ar y clogwyni nepell o'r maes parcio chwaith, a deallwyd fod safle'r nyth ar y clogwyni ymhellach i'r de eleni. Clywyd cri y frân goesgoch cyn gweld pâr ohonynt yn codi yn llif y gwynt i fyny wyneb y clogwyn. Llwybro ymlaen at dwr Elin a gweld yr olygfa ddisgwyliedig o'n blaenau. 'Roedd wyneb y creigiau yn garped byw o ddu a gwyn.





Gwylogod oedd y rhan fwyaf o'r adar ar y clogwyni gydag ychydig llai o lursod. Mae'r llun yn dangos pig fain y gwylog, yn wahanol i big llydan y llurs a'r linell wen ar ei draws.Yn ogystal, mae gan y llurs linell wen rhwng y llygad a thop y pig. 'Roedd yna fynd a dwad cyson yn ôl ac ymlaen o'r silffoedd creigiog i'r môr. Syndod oedd fod lle iddynt lanio wrth ddychwelyd. Allan ar y môr 'roedd rafftiau mawr o'r adar hyn yn pysgota, ac yn eu mysg ambell i bâl. Pan ddeuai'r haul i dywynu gwelwyd wynder ambell i




hugan yn plymio i'r dyfnder. Wrth baratoi i fentro i lawr y grisiau am y goleudy daeth ffurf amlwg yr hebog tramor drwy'r awyr uwch ein pennau. Yntau yn mynd a dwad fel y bo'r angen i fwydo'i nythaid ar y clogwyni gyda chyflenwad diderfyn o lursod a gwylogod diofal.







Stopio ar y grisiau i gael cinio ac i astudio'r palod a'r llursod ar y wyneb gwelltog gyferbyn. Oherwydd ei osgo a'i gerddediad doniol, 'does ryfedd i'r pâl gael ei alw'n glown clogwyni'r môr. Ymysg y gwylanod yn hedfan oddi amgylch, glanio a nythu, yr oedd gwylanod y penwaig, gwylanod penddu, gwylanod cefnddu –y mwyaf




a'r lleiaf, gwylanod coesddu ac adar drycin y graig. Dychwelyd i ben y grisiau a chael ennyd i gael ein gwynt atom cyn dychwelyd dros y mynydd heibio hen orsaf gwylwyr y glannau, hen orsaf trosglwyddo Radio Athlone, a hen gytiau'r Gwyddelod at y ceir yn y maes parcio. Diwrnod arbennig. Diolch i Tomos am ein harwain mor deheuig.



# Adar a theigrod yr India
## Detholiad o ddyddlyfr natur

**Ieuan Bryn, Rhydymain**

**9 Mawrth 08**

**Trwy ffenestri'r trên, does yna fawr o bethau i 'ngwefreiddio i. Teuluoedd wedi codi llochesi dros dro ar ymyl y rheilffordd, a'u heiddo ar wasgar o'u cwmpas. Tyllau cegrwth yn nhoeau'r cartrefi 'parhaol', a waliau wedi dymchwel. Plant yn chwilio am sbarion bwyd ar y traciau...**

Dod i stond yng ngorsaf Kosi Kalam, lle mae yna hen fachgen hirfarfog yn tynnu tameidiau o fwyd o'i sgrepan, ac yn siarad fel melin bupur wrtho'i hun. Sawl un yn ei hyd ar y llawr, yn cysgu'n drwm yn y gwres. Un fam mewn sari llachar a gronynnau gloyw ei gwisg yn dal yr haul bob tro mae hi'n symud.

Yn yr un stesion awr a hanner yn ddiweddarach... A'r awr a hanner yn mynd yn ddwyawr. Dydi'r system awyru ddim yn gweithio, ac mae'r rhan fwyaf o'r teithwyr wedi mynd allan, ac yn cicio'u sodlau hwnt ac yma ar y traciau.

Pum awr yn hwyr yn cyrraedd ein llety ar gyrion tref Ranthambore lle cafodd Rafeeq, ein harweinydd, ei eni a'i fagu. Mae o wedi bod yn astudio teigrod am bedair blynedd ar ddeg, ac wrthi, ar hyn o bryd, yn cofnodi ffrwyth ei ymchwil.

Edrych ymlaen at fynd i chwilio am rai ohonyn nhw efo fo, ben bore 'fory.

**10 Mawrth 08**

Mae yna doreth o adar o'n cwmpas ym Mharc Cenedlaethol Ranthambore: gwenyn-yswr gwyrdd *(green bee-eater)*, pysgotwr bronwyn *(white-breasted kingfisher)*, cnocell eurgefn *(golden-backed woodpecker)*, tingoch du *(black redstart)*, rholydd Indiaidd *(Indian roller)*, paracît torchgoch *(rose-ringed parakeet)*, aderyn porffor yr haul *(purple sunbird)*, cigydd cefnfrown *(bay-backed shrike)*, crymanbig ddu *(glossy ibis)* a hwyaden goch yr eithin *(ruddy shelduck)*.



Paracît torchgoch

Mae rhai adar yn cipio sylw rhywun oherwydd eu maint – er enghraifft, y fwltur pengoch *(king vulture)*, y sarff-eryr copog *(crested serpent-eagle)*, y boda mêl copog *( crested honey buzzard)*, y ciconia du *(black stork)*, y ciconia amryliw *(painted stork)* a'r crëyr mawr gwyn *(great egret)*.

Ar wahân i'r creyrod gwyn, mae yma grëyr porffor, crëyr y nos a chrëyr cefnwyrdd (sef yr un rhywogaeth ag a grwydrodd o Ogledd America i Draeth Coch, Sir Fôn yn ystod hydref 2005).

Ac yn eu cynefin naturiol, mae'r peunod gwyllt yn drawiadol iawn. Dwsin a rhagor ar y coed cyfagos, a gwalch y pysgod yn glanio ar goeden ar ymyl llyn. Mi oedodd yno am yn hir, ac mi blymiodd glas y dorlan i'r dwr, yn union oddi tano fo.

Gyrrwr y jîp yn stopio, a'r tywysydd yn tynnu ein sylw at olion pawennau yn y llwch...

Ganrif yn ôl, roedd 40,000 a rhagor o deigrod yn yr India. Heddiw, amcangyfrifir mai ychydig dros 1,400 sydd yna.

Potsio ydi un o'r prif resymau am y lleihad yn y niferoedd, ac at Tsieina, yn bennaf, y mae'r bys yn pwyntio. Yno, gellir gwerthu croen teigr am dros £8,000 a defnyddir yr esgyrn i wneud 'meddyginiaethau'...

Mae'r tywysydd yn clywed cri argyfwng ceirw a mwncïod; mae'r mwncïod yn sgrialu i fyny'r coed, a'r ceirw'n cychwyn rhedeg.

Rydan ni'n diffodd yr injan, ac aros.

Yn y distawrwydd, mae yna deigres yn ymlwybro i lawr bryncyn tuag aton ni, ac yn dal i gerdded nes ei bod hi o fewn pedair llath, ar y mwyaf, i ni!

Mae'n plannu ei phawennau ar foncyff coeden, a rhwbio'i thrwyn ar y rhisgl. Mae hi'n syllu arnon ni, ac yn grymial wrth i gamera rhywun fflachio'n ddamweiniol.

Mi wnaeth loetran yno am tua chwarter awr, a cherdded i ffwrdd wedyn o dow i dow...

Ymhen dim o dro, mae'r mwncïod yn sgrechian unwaith eto. A dyma deigres arall yn dod i'r golwg a throedio, wrth ei phwysau, tua'r llyn sydd yn ymyl.

Mae hi'n fwy amheus ohonon ni na'r llall, a phan gyrhaeddodd y dwr, yr hyn wnaeth hi oedd troi i'n hwynebu, trochi ei thraed ôl, a lled-orwedd yn y dwr. Er mor sychedig oedd hi, doedd hi ddim am fentro yfed tra'r oedd yna fygythiad posib iddi o'n cyfeiriad ni...

Yna, taro ar drydydd teigr! Yn gorweddian dan goeden tua phedwar ugain llath i ffwrdd, gan godi'i ben bob hyn-a-hyn a dylyfu gên. Gwryw, yn ôl ei faint. Ymhen hir a hwyr, mi gododd ar ei draed, ymestyn, a sleifio i'r llwyni.

**11 Mawrth 08**

Harddwch ysgytwol teigrod ac adar oedd yn llenwi fy nghynfas i ddoe; mae lluniau heddiw'n wahanol iawn. Y cartrefi gyda'r tlotaf a welais, ac mae hynny'n cynnwys cartrefi tlawd Soweto, Cambodia a Pheriw... Cytiau gwiail ydi rhai. Defnyddiwyd blociau pridd i godi eraill, a'u toi efo pa bynnag ddefnyddiau oedd wrth wrth law ar y pryd. Lle mae yna ffermydd bychain bach, mae'r gwartheg a'r ieir a'r moch yn byw dan yr unto â'u perchnogion. Ac ar drelars yn cael eu tynnu gan dractorau gwan, mae yna blant yn mynd i'r ysgol, a theuluoedd ar eu ffordd i'r farchnad.

Rhwng y tiroedd llwm, mae yna gnydau'n tyfu, a merched mewn saris yn eu cynaeafu. Mae yna ferched yn ymlafnio ar y ffyrdd hefyd – yn ceibio, a chario pridd a cherrig mewn basgedi ar eu pennau. Merched eraill yn sgwrio dillad wrth ffynnon y pentref, neu ar lan afon - os oes yna ddwr ynddi...

**15 Mawrth 08**

Cyrraedd ein bythynnod bach ym Mharc Cenedlaethol Bandhavgarh, yn hwyr fel arfer! A chenau goeg liwgar yn chwarae mig y tu ôl i fy nhwymwr dwr.

Ddiwedd y pnawn, ymwasgu i jîp, ac ar ein tro drwy'r parc, gweld ciconia Marabw *(Marabu stork)*, sarff-eryr copog *(crested serpent eagle)*, drongo cynffon raced *(racket-tailed drongo)*, cnocell

eurgefn *(golden-backed woodpecker)*, brân-ffesant gyffredin *(common crow pheasant)*, fwltur pengoch *(red-headed vulture)* a fwltur gylfin hir *(long-billed vulture)*.

Y gnocell eurgefn yn syfrdanol. Ond dim sôn am deigr...

**<u>16 Mawrth 08</u>**

Codi ar doriad y wawr a dod wyneb yn wyneb â gwalch-eryr copog *(crested hawk-eagle)*. Ar awr mor gynnar, haws dygymod â cheiliogod coch y goedwig *(red jungle foul)* sy'n pigo ar lawr y jyngl, ac yn ei heglu hi o'r golwg pan welan nhw fodau dynol. Difyr hefyd gweld pâr o baracitiaid pengoch *(blossom-headed parakeets)* yn cusanu ar un o'r canghennau!

Ond uchafbwynt y bore oedd gwylio pâr o eurynnod penddu *(black-headed orioles)*, a gwrando arnyn nhw'n galw. Eu nodau fel diferion mêl, a'u plu melyn yn wenfflam yn yr haul...

Wrth gerdded ar gyrion y pentref yn y pnawn, gweld adar haul porffor *(purple sunbirds)*, copog *(hoopoe)*, euryn penddu *(black-headed oriole)*, crymanbig ddu *(glossy ibis)*, tingoch du *(black redstart)*, hebog adeinddu *(black-winged hawk)*, robin brith *(magpie robin)*, cornbig llwyd *(grey hornbill)*, a'r hyfryd wybedog Tickell *(Tickell's flycatcher)*.

* * * * * * * *

Rhoi cynnig arall wedyn ar ddod o hyd i deigr, ac ar ôl bod wrthi'n chwilio a chwilio, dod ar draws sgerbwd carw samba.

Disgwyl yn dawel fel ysbrydion, ac ymhen hir a hwyr, mae yna deigres yn symud yn ochelgar drwy'r prysgwydd.

Ar ôl pwyllo wrth y carcas am rai munudau, mae'n claddu ei dannedd ynddo, a'i lusgo i le mwy agored. A daw gweddill y cymeriadau i'r llwyfan – tri o genawon pedwar mis oed.

Maen nhw'n gwybod yn iawn beth i'w wneud, ac ar ôl rhwygo'r cig yn ddarnau hwylus a chael eu digoni, maen nhw'n ymadael fesul un, a mynd i led-orwedd wrth y llwyni.

Mae'r fam yn dal ati i wledda am hanner awr arall.

**<u>17 Mawrth 08</u>**

Clamp o dylluan glustiog – tylluan lwyd y pysgod *(brown fish owl)* – oedd yr aderyn mwyaf trawiadol welson ni, bore 'ma. Bron yn ddwy droedfedd, a'i llygaid mawr, melyn yn rhythu arna'i.

Gweld dwy rywogaeth newydd o adar – gwenyn-yswyr gwyrdd lleiaf *(little green bee-eaters)* a mwnia tinwyn *(white-rumped munia)*. Cael golwg hefyd ar las y dorlan a chlochdar y cerrig; hyn yn fy ngoglais i, gan eu bod i'w gweld yng Nghymru hefyd, wrth gwrs!

**<u>19 Mawrth 08</u>**

Yng nghyffiniau Parc Cenedlaethol Kanha erbyn hyn, ac wrth yrru at y fynedfa yn y düwch cyn codiad haul, dwi'n cofio'r gerdd gan William Blake, sy'n rhyw fath o gyfateb i soned Williams Parry i'r llwynog, am wn i:

*'Tiger, tiger, burning bright*
*In the forests of the night,*
*In what distant deeps or skies*
*Burnt the fire of thine eyes?'*

"Sefydlog fflam ei lygaid arnom..."

O'n cwmpas, mae'r jyngl. Ac yn gyfangwbl annisgwyl, mae yna deigr yn camu o'r coed ar y dde i ni, a chroesi'r lôn tua ugain llath o'n blaenau. Camu i olau llawn y jîp, ac yna, i dywyllwch y coed yr ochr draw. Ac ni welodd yr un ohonon ni yr un teigr arall weddill y dydd.

Welson ni yr un teigr, ond mi welson ni eryr torgoch *(rufous-bellied eagle)*, fwltur tinwyn *(white-rumped vulture)*, boda mêl copog *(crested honey buzzard)*, drongo cynffon-raced mwyaf *(greater racket-tailed drongo)*, cornchwiglen dagell-felen *(yellow-wattled lapwing)*, tylluan fraith *(spotted owl)*, tylluan fach y goedwig *(jungle owlet)*, cudyll sicra *(shikra)*, cigydd cynffon hir *(long-tailed shrike)*, crymanbig ddu *(black ibis)*, clebryn llygatwyn *(white-eyed babbler)*, pysgotwr bronwyn *(white-breasted kingfisher)* – a chopog *(hoopoe)* a'i grib ar agor!

**22 Mawrth 08**

Deffro ar drên sy'n ysgytian mynd o Jabalpur i Delhi. Mae hi'n tua phump o'r gloch y bore, ac mae o dair awr yn hwyr yn barod!

Yr haul yn codi'n anhygoel o goch dros y caeau mwstard. Merched a dynion yn cerdded y llwybrau atyn nhw, a tharth y bore'n creu gwlad o hud a lledrith.

Araf y mae'r trên yn symud – digon araf i mi weld un glas y dorlan arall.

Dwi'n codi, ac mae'r mamau wrthi'n barod yn 'molchi eu plant, yn gwisgo amdanyn nhw, ac yn cribo eu gwalltiau...

Erbyn i ni gyrraedd Delhi, mae hi'n hanner awr wedi deg. Y siwrnai wedi cymryd
deunaw awr a hanner!

Mae hi'n Wyl Holi – Gwyl y Lliwiau – yn y brifddinas, a dull traddodiadol yr Hindwiaid o'i dathlu ydi cymysgu paent powdwr efo dwr, a'i luchio at ei gilydd! Mae llawer o'r siopau wedi cau, a'r bobl sy'n dal o gwmpas yn ddryswch o liwiau, o'u corun i'w sawdl.

Mae'r cardotwyr wrthi fel arfer, ond dewis cyfrannu i fudiadau sy'n ceisio gwella byd y tlodion fydda i, yn hytrach na rhoi arian i fegerwyr unigol. Serch hynny, fedra'i ddim peidio â sylwi ar un cardotyn. Does ganddo fo ddim breichiau na choesau cyfan. Mae o'n ddall, ac ar wastad ei gefn, yn gwingo'n ddychrynllyd.

Mae'n siwr ei fod o'n cael ei osod yno, mewn gwres llethol, naill ddydd ar ôl y llall, ac i mi, mae yna rywbeth yn gwbl wrthun yn y peth.

Ond pwy ydw i – ymwelydd ar ei ffordd i westy clyd – i farnu?

Mae yna ddwy ochr i rwpî hefyd, siwr gen i.



# Tocyn trên, beic a thywydd da

## Penwythnos ym mhellafoedd yr Alban.

Rhodri Dafydd

**Bydd y rhai hynny ohonoch sy'n fy adnabod yn gwybod mai fy mhrif ddiddordebau ydy beicio ac adar. Dau hobi cwbl gyferbyniol â'r ddau'n rhoi gwefr o fath wahanol - yn eu ffyrdd unigryw eu hunain. Felly pan gefais wahoddiad i gyfuno'r ddau ddiddordeb dros benwythnos ym mhellafoedd yr Alban, doedd dim rhaid gofyn ddwywaith!**

Syniad Dafydd Roberts, Ecolegydd Parc Cenedlaethol Eryri oedd y trip – a syniad campus oedd o fel y cefais weld! Y bwriad oedd dal trên *'sleeper'* o Crewe i Inverness dros nos Iau, a theithio oddi yno wedyn ar drên arall i fyny i ucheldiroedd pellaf yr Alban, i orsaf Forsinard, nepell o Thurso yng nghornel ogledd ddwyreiniol y wlad – yn agos iawn i John o'Groats a dweud y gwir. Ac felly y bu, wedi archebu tocynnau doedd dim i'w wneud ond edrych ymlaen yn eiddgar!

Ac felly, ar y ( )fed o Ebrill dyma bacio sach gefn yn llawn dillad glaw (yr Alban ym mis Ebrill oedd ein cyrchfan cofiwch!), rhoi'r ddau feic yn y car ac anelu am Crewe. Cawsom gloi'r ddau feic yn y caban pwrpasol ar y trên yn ddidrafferth iawn, ac er mai cyfyng iawn a deud y lleiaf oedd ein dau fync yn y caban cysgu llwyddasom i gysgu'n ddiffwdan (welsoch chi erioed luniau o'r gwestai arbennig hynny gyda lle i ddim ond gorwedd i lawr yn Siapan ar y teledu? Neu dychmygwch ddau sardîn mewn tun llai fyth a dyna chi'n o agos ati! Bron a dweud fod gan y beics fwy o le na ni ar y ffordd i fyny! Rhaid ei bod yn olygfa ddoniol ar y naw gweld Dafydd sy'n 6'4" a minnau yn 6'2" yn gwasgu i le mor fach!).

Profiad rhyfedd oedd deffro am 7 gan agor y llenni yn ein stafell symudol i weld mynyddoedd y Cairngorm o'n blaenau – yr oeddem wedi cyrraedd Aviemore yn barod! Wedi egwyl yn Inverness a phaned fach o goffi i'n hadfywio, ymlaen ar drên arall i fyny ar hyd arfordir dwyreiniol yr Alban, heibio'r Ynys Ddu ac Aber yr afon Tain, cyn troi i mewn a thorri ar draws gwlad – dyma ni yn ucheldiroedd yr Alban o ddifri bellach! Nentydd gloyw yn byrlymu, y grug ymhobman a'r ceirw cochion yn baglu o ffordd y trên. A'r rhostiroedd diffaith yn ymddangos bron yn ddiddiwedd, dyma gyrraedd pen ein taith – pentref Forsinard. Wel, dwi'n deud pentref, ond efallai fod hyn braidd yn gamarweiniol, oblegid dim ond stesion trên (sydd bellach yn arddangosfa o eiddo'r RSPB) a llond llaw o dai sy' yno – gorsaf i'r amryw o *'lodges'* saethu yn yr ardal oedd hon ar un adeg (yn wir dyma pam adeiladwyd y rheilffordd yn y lle cyntaf yn y 1800au), ond mae'r hen ddiwydiant hwn a fu unwaith mor llewyrchus wedi diflannu bron yn gyfangwbl erbyn hyn, a llawer o'r gwestai mawrion yn adfeilion arswydus yn niwl y milltiroedd anghysbell.

Wel, meddech chi, beth oedd y rheswm dros ddod i le mor anial felly?! Wel, yr adar wrth gwrs. Mae Forsinard yn adnabyddus fel canolfan ynghanol ardal eang a adnabyddir fel y *'flow country'* – ardal enfawr o rostiroedd sych a gwlyb, mynyddoedd a dyffrynnoedd llydan sydd yn frithwaith o byllau a llynnoedd (neu *'lochans'*) bychain – sydd wrth gwrs yn nefoedd i'r adar ddaw yma yn eu cannoedd i fagu bob haf. Adar yw'r rhain sydd fel arfer i'w canfod yn magu yn nhwndra'r Arctic pell – dyma'r agosaf sydd gennym yn ynysoedd Prydain i'r fath dirlun a chynefin. Oherwydd ei bwysigrwydd, mae 17,500 acer ohono bellach yn warchodfa natur o eiddo'r


RSPB – gwarchodfa enfawr bron heb ffordd na llwybr yn torri ar ei draws. A dyma, welwch chi, lle roedd y beics yn dod i mewn iddi! Gan nad oes ffyrdd tarmac yma, yr unig ffordd o deithio yw ar hyd y traciau graean garw sy'n eiddo i'r stadau ac i'r Comisiwn Coedwigaeth. Nid yw'r rhain ar agor i gerbydau ac felly yr unig ffordd o deithio yma yw ar droed – neu, wrth gwrs, ar feic mynydd! Syniad Dafydd felly oedd y gellid croesi llawer mwy o dir mewn diwrnod ar feic nag a ellid mewn esgidiau cerdded ac a fyddai o ganlyniad yn ein galluogi i weld mwy o adar!

'Doedd o ddim yn anghywir chwaith! Er i ni orfod gwthio cryn dipyn drwy ambell lecyn gwlyb (gwnaeth ambell i berson yn y pentref sylwadau amheus am ddau ddyn mewn oed yn pedlo beics drwy gorsydd a hynny mewn wellingtons!) o fewn dwy awr i gyrraedd ar y prynhawn Gwener yr oeddem wedi gweld tylluan glustiog yn hela, ac wedi dod o hyd i lynnoedd bychain ble roedd pibyddion coeswyrdd wrthi'n sefydlu tiriogaethau magu. Ar ben hyn gwelsom gaeau wedi eu gwella ger hen *'grofft'* oedd yn ferw o gwtiaid aur a gylfinirod. Oedd, roedd y beics yn profi'n syniad da!

Roedd dydd Sadwrn yn well fyth. Yn rhyfeddol ddigon, o ystyried ein bod yn ucheldiroedd yr Alban ym mis Ebrill, cawsom heulwen braf gydol y dydd (ac eithrio un gawod drom!), ac er ei fod yn ddiwrnod cythreulig o hir yn y cyfrwy, roedd gweld yr amrywiaeth o adar arbennig yn gwneud i'r milltiroedd ddiflannu yn rhwydd. Gylfinirod, boda tinwyn, gwalch bach, hwyaid du yn magu, yn wir, bron pob aderyn y gallem fod wedi gobeithio ei weld. Ond am wn i uchafbwynt y daith oedd dod ar draws trochydd gyddfgoch balch ar lyn bychan – aderyn gwerth chweil yn arddangos ei wddf coch llachar, a hwnnw yn disgleirio yn haul prynhawn y gwanwyn cynnar gan gyferbynnu'n wych a dwr gloywlas y llyn. Hwn, heb os, oedd y creadur a roddodd yr egni i ni feicio deg milltir yn ôl i'n llety a hynny yn erbyn y gwynt cryf oedd wedi codi – roeddem yn nannedd hwn yr holl ffordd yn ôl!

Wel roedd diwrnod fel hwn yn y tywydd wedi ein blino'n llwyr – a pha ffordd gwell i orffen ein diwrnod i'r brenin na chyda pryd o fwyd i'r brenin – platiad o gig carw lleol a llysiau o'r ardd – balm i'r enaid cyn noson ddiguro o gwsg!

Cawsom dro bach sydyn i'r corsydd fore dydd Sul, a chyfle i fynd i ganolfan ymwelwyr yr RSPB yn yr hen orsaf tra'n aros am y trên - gan nodi'r adar roeddem wedi eu gweld yn y llyfr er mwyn i'r wardeiniaid gael gwell syniad lle i chwilio. Ond gyda thaith hir yn ôl i Gymru o'n blaenau, dyma hawlio'n seddau ar y trên a'i chychwyn hi tuag adref yn wên o glust i glust. Ond cyn camu ar y trên – y peth olaf a ddaeth i'r clyw oedd galwad wylofus y pibydd coeswyrdd yn ffarwelio efo ni. Byddwn yn ôl yma cyn bo hir heb os – er ei bod yn edrych yn bell ar fap, mewn gwirionedd dangosodd y trip bach yma beth y gellir ei wneud mewn penwythnos hir hefo tocyn trên, beic a thywydd da!



Llun – L Campbell, RSPB

# Adar a'r Tywydd

gan Twm Elias

Mae yna dorraeth o arwyddion tywydd i'w cael ym myd natur. Dyma ichi gasgliad o rai sy'n ymwneud ag adar. Tybed a ydych chi yn gwybod am fwy? Gadewch imi wybod cyn gynted a phosib. Rwy'n gobeithio cyhoeddi cyfrol ar y pwnc cyn diwedd y flwyddyn, felly dyma gyfle ichi lenwi ambell fwlch.

## Cyffredinol

***Bydd adar yn tewi cyn storm***

***Pob aderyn a gân cyn Gwyl Fair***
***A wyla'n hidl cyn Calan Mai*** (Gwyl Fair yw Chwefror 13eg, Calan Mai yw Mai 1af)

***Adar yr eira / adar drycin*** – ddechrau'r gaeaf bydd heidiau o adar ymfudol o wledydd Llychlyn a dwyrain Ewrop yn dod atom i aeafu. Yn aml iawn byddant yn cael eu gyrru gan newidiadau yn y tywydd ac yn cyrraedd atom o ychydig oriau hyd at ddiwrnod neu ddau o flaen eira. Aelodau o deulu'r fronfraith yw'r adar dan sylw, e.e. socan eira (mae ei henw yn dweud y cyfan), coch dan adain, drudwy, brych y coed ayyb

Math arall o adar drycin yw aelodau o deulu'r Pedrynnod (*Shearwaters*), e.e. aderyn drycin y graig, aderyn drycin Mannaw ayyb. Adar y môr ydynt a bydd rhai ohonynt, fel aderyn drycin Mannaw, yn cael eu chwythu i'r glannau adeg stormydd gorllewinol yn y gwanwyn.

## Alarch

***Elyrch gwylltion yn cyrraedd yn gynnar – tywydd caled ar ei ffordd.*** (Porthmadog, Môn)
Bydd heidiau o elyrch y gogledd (o Wlad yr Iâ) a nifer fechan o elyrch Bewick (o Siberia) yn gaeafu mewn gwahanol rannau o Gymru. Fel arfer byddant yn cyrraedd ym mis Hydref neu ddechrau Tachwedd ac yn ymadael ddiwedd Mawrth neu ddechrau Ebrill. Bydd y dyddiad pan gyrhaeddant o'r gogledd yn gallu amrywio dros gyfnod o fis a mwy rhwng un flwyddyn â'r llall gan fod y tywydd a chyfeiriad y gwynt yn dylanwadu'n arw ar pryd maent yn gadael eu hardaloedd nythu am y de. Felly, os cyrhaeddant yn gynnar mae siawns bod gwyntoedd gogleddol wedi eu gyrru ar eu hynt. Yn y gwanwyn bydd eu hymadawiad yn digwydd o fewn cyfnod llawer byrrach. Yr ysfa fridio fydd yn eu gyrru bryd hynny.

***Alarch*** (dof) ***yn nythu'n uchel – arwydd o lifogydd***
***Alarch yn nythu'n isel – tywydd sych*** Gwaetha'r modd maent yn cael eu twyllo'n aml iawn.

## Brân

***Brain yn hedfan yn uchel yn arwydd o dywydd braf*** Cyfeiria hyn at yr heidiau o ydfrain neu jacdoeau a welir weithiau yn chwyrilo yn uchel yn yr entrychion.

*Un Frân*
***Un frân ar ei hadain tros feusydd***
***Yn gadael y goedwig a'i nyth***
***Broffwyda'n ddi-feth am y ddrycin***
***Daw curlaw, a'r gwyntoedd a chwyth.***

*Dwy Frân*
***Dwy frân ddu ar ben bore yn hedfan***
***A'r nyth yn y goedwig o'u hol;***
***Cymylau a gollir o'r wybren***
***A gelwir pladuriau i'r ddôl***
(Coelion Cymru)

***Brain ar y lôn – storm o wynt ar ei ffordd*** Dywedir mai pigo a llyncu graean y mae nhw fel balast rhag cael eu chwythu i ffwrdd.

***Y brain yn ystwrllyd ac yn hedfan yn heidiau ac yn isel – tywydd garw***

***Brain yn swnllyd yn eu nythfa – glaw***

***Brain yn hedfan yn erbyn y gwynt – tywydd braf***


***Brain yn fflio'n uchel a curo'u hadenydd yn gyflym – storm o wynt***

***Brain a gwylanod yn disgyn ar y caeau – glaw***

***Brain yn y caeau gwair – glaw***

***Brain yn crawcian yn gynnar yn y bore – maent yn gwaeddi 'glâw! glâw!'***

***Brain yn nythu'n isel – haf gwael***
***Brain yn nythu'n uchel – haf braf***



**Ceiliog**

***Paid dangos dy geiliog ar y glaw***

***Celiog yn canu yn y cwt yn y pnawn – glaw***

***Ceiliog yn canu a hithau'n dal i lawio – fe ddaw'n hindda cyn hir***

**Cigfran**

***Cigfran yn yr entrychion – braf***

**Cnocell y coed**

Gelwir y gnocell (werdd) yn ***'Gaseg ddrycin'*** am fod ei galwad yn arwydd glaw / storm (cyffredin)

**Cochgam**

***Y gochgam ar frigyn y goeden yn canu: "swît, swît" – tywydd têg***
***Y gochgamar foncyff y goeden yn canu: "drit! drit!", neu "drinc! drinc!" – glaw***
(Mae y Gochgam yn enw arall ar y Robin goch ym Morgannwg a Chaerfyrddin)

**Coch dan adain**

***Pan fo heidiau o'r goch dan adain yn cyrraedd yn yr hydref / ddechrau'r gaeaf mae eira ar ei ffordd yn fuan***

**Colomen**

***Colomenod yn hir cyn cyrraedd adre – tywydd drwg*** Colomenod rasio yw y rhain a byddant yn llochesu yn rhywle rhag y storm.

**Cornchwiglen**

***Pan ddaw cornchwiglod i gors Parciau, Mynydd Nefyn, yn y gaeaf fe ddaw'n eira trwm***

***yn fuan iawn*** Ni welir cornchwiglod yma fel arfer yn y gaeaf – byddant ar yr arfordir rai milltiroedd i ffwrdd.

***Cornchwiglod yn nythu ar y boncen – tywydd gwlyb i ddod***
***Cornchwiglod yn nythu ar y gwaelod – tywydd sych i ddod***

***Cornchwiglen yn codi'n uchel a phlymio – tywydd braf***

<u>Cudyll coch</u>

***Cudyll coch yn hofran yn ddisymud – glaw***

<u>Creyr glas / Crychydd / Clegar glas</u>

Ceir nifer fawr o amrywiadau o'r goel y bydd gweld creyr glas / crychydd yn hedfan i fyny'r afon yn golygu glaw trwm a llif yn yr afon. Ceir dywediadau lliwgar yn cyfleu hynny:

***Creyr glas yn hedfan i fyny'r afon – glaw***
***Creyr glas yn hedfan i lawryr afon – tywydd têg***
***Creyr yn mynd i fyny i Ffestiniog – mynd i agor y fflodiart mae o***
***Creyr yn mynd i fyny i agor fflodiart Cwm Cwellyn***

***Creyr yn hedfan yn isel ac araf i fyny'r afon – yn mynd i agor 'argae'r glaw'***

***'Co fe'n mynd i'r rhos i ôl y glaw*** (Penfro)

***Crychydd yn hedfan lan yr afon – blaen lli***
***Crychydd yn hedfan lan y nant – glaw***
***Crychydd yn hedfan lan y cwm – mynd i nol y glaw***

***Daw y crychydd fyny i mofyn llifogydd***

Weithiau ceir dywediad sy'n groes i'r arferol:

***Creyr yn hedfan 'lawr i Bwllheli*** (o Abererch) – ***mynd i agor y fflodiart*** Arwydd glaw yw hwn a'r safle dan sylw yw fflodiart y llanw yn harbwr Pwllheli.

***Creyr yn ehedeg i gyfeiriad y môr i agory llif-ddrws – glaw trwm*** h.y., i'r afon sy'n gorlenwi fedru rhedeg i'r môr.

<u>Cwtiar</u>

***Ieir dwr duon*** (cwtieir) ***yn niferus iawn ar Lyn Peris — arwydd ei bod wedi rhewi yn uwch i fyny'r mynyd***

<u>Drudwy</u>


***Daw adar drudws lawr yn llu o flaen tywydd garw – o flaen eira yn neillduol***

***Os bydd angen glo neu rywbeth neillduol o'r dref, brysia pobl y wlad i'w gyrchu pan welant y drudws yn lluosog***

Oherwydd tuedd heidiau o ddrudwy i gyrraedd atom cyn eira fe'u gelwir mewn rhai ardaloedd yn ***'adar yr eira'*** neu ***'adar drycin'***

***Drudws yn hel at ei gilydd yn arwydd drycin***

*Heidiau drudwy yn cadw stwr – tywydd caled*



*Drudwy yn y caeau gwair – gwynt*

Dryw

*Dryw yn neidio i mewn ag allan o wrych – glaw*

*Y dryw bach yn 'gyrru ei geffyl' rhwng y llwyni coed – glaw* h.y., yn cadw stwr

Grugiar


*Grugieir yn anesmwytho ac yn swnllyd – glaw ar ei ffordd*

*Grugieir yn dod i lawr o'r mynydd – eira*
*Y grows yn dwad lawr o'r mynydd – tywydd mawr*

Gwennol

*Un wennol ni wna wanwyn*

*Gwenoliaid yn hedge yn isel ac yn cyffwerdd y dwr â'u hadenydd – glaw*



*Gwenoliaid yn hedfan yn uchel – braf*
*Gwenoliaid yn hedfan yn isel – glaw ar ei ffordd*

Arwyddion tywydd braf
*Y wennol yn hedfan yn uchel*
*A swn y tren o bell**
*A chlywed gwyddau'n clegar*
*Sy'n arwyddo tywydd gwell*

Arwyddion glaw
*Y wennol ar y ddaear*
*A swn y tren o bell**
*A jac y do yn clebran*
*Yng ngwaelod Coed y Gell*

Cyfeirir at arwyddion Traeth Dulas ym Môn. Bydd swn tren Amlwch o'r gogledd neu'r de yn gallu arwyddo tywydd da, ond o'r gorllewin mae'n arwydd glaw.

Gwennol Ddu

*Gwenoliaid duon yn sgrechian yn arw – newid tywydd, glaw fel arfer*

Gwydd

*Os bydd hwyaid a gwyddau yn gwylltu ar wyneb y dwr ac yn ymsoddi llawer yn orwyllt tano, y mae y gwlaw yn agos*
*Gwyddau'n heidio – tywydd caled*


*Gwyddau yn dod i lawr o'r mynydd yn y gaeaf— barrug*

*Gwyddau gwylltion yn mynd i Lyn Cochwyaid – tywydd da* (Maldwyn)

*Gwyddau gwylltion yn hedfan i lawr afon Banwy – arwydd storm*

*Os deuai haid o 'Jac Llandudno' i gyfeiriad Traeth Coch a Biwmares – tywydd mawr*
Pysgotwr o Fiwmares ddywedai hyn. Jac Llandudno ym Môn yn enw ar y gwyddau.

*Ni saif glaw ar glagwydd*




Gwylan

*Yr wylan wen adnebydd*
*Pan fo hi'n newid tywydd*
*Ehêd yn dêg ar adain wen*
*O'r môr i ben y mynydd* (Triban Morgannwg)

*Gwylanod yn hedfan ymhell i'r tir – drycin ar ei ffordd*

*Gwylanod môr yn dwad i'r tir*
*Mi ddaw yn law cyn bo hir* (Ted Breeze Jones, Ffestiniog)



*Os mudo i'r tir wna'r wylan*
*Garw hin a ddaw yn fuan*

*O'r môr y daw'r wylan*
*A glaw wna ddarogan*

*Gwylanod môr yn dwad i'r mynydd*
*Dyma'n sicr arwydd stormydd*

*Os croch eu cri fydd gwylanod Mochras*
*Gellir disgwyl tywydd atgas*

Dywedid am wylan yn y tir yn y gwanwyn: ***"O, syched sy' arni; gwaeddi am ddwr y mae"*** (Môn)

***Ieir Defis y Bermo wedi cyrraedd – fe ddaw'n dywydd mawr*** Roedd Davies y Bermo yn gontractiwr ffyrdd enwog yn y 1930au.

***Brain Bach y Bermo yn arwydd storm***

***Brain Bach y Bala*** (gwylanod penddu) ***yn dwad dros Fwlch y Groes am Fawddwy o flaen 'strellwch'*** (tywydd drwg o'r dwyrain).

***Os bydd Hogiau Hirael yn fflio i'r tir – fe ddaw yn dywydd mawr iawn***

Byddai pobl ardal Corwen yn dehongli cri'r gwylanod fel a ganlyn:
***Cyn storm – "Drycin! Drycin! Awn i'r eithin!"***
***Wedi'r storm – "Hindda, hindda, awn i'r morfa"***

Gylfinir

***Gylfinir yng Nghors Parciau – mae'r gwanwyn ar ei ffordd***

***Gylfinir yn canu'n hwyr yn Chwefror – glaw a thywydd mawr***

***Ffliwt y gylfinir – glaw***

Roedd 'na hen ffarmwr yn Uwchaled, pan welai y gylfinir yn dwad yn agos i'r ty, yn taflu cerrig ati ac yn ceisio ei hel i ffwrdd – credai y byddai'n dwad a glaw.

***Y 'chwibannwr'yn canu yn yr hwyr – tywydd têg***

<u>Hugan</u>

*Llawer o huganod yn plymio – tywydd garw*

***Huganod yn weladwy o'r lan – tywydd garw*** Bydd huganod i'w gweld yn amlach pan fo gwyntoedd gorllewinol cryf yn eu chwythu yn nes i'r glannau.

<u>Hwyaden</u>

***Chwiaid yn creu cyffro an wyneb dwr y llyn – glaw***

***Pan geir rhew'n ddigon cryf i ddal celiog chwadan cyn y Dolig, ni fydd llawer o rew yn y flwyddyn newydd***

<u>Iâr</u>

***Ieir yn eistedd ac ysgwyd eu plu yn y llwch – braf***
***Ieir yn 'chweina'*** (yn pigo yn eu plu) ***ac ysgwyd yn y llwch – glaw***

***Ieir yn crwydro ymhell i grafu – braf***

***Ieir yn heidio neu glosio at ei glydd tu allan i'r cratsh – glaw***

***Ieir yn clwydo'n hwyr iawn – diwrnod stormus i ddilyn***

***Bydd ieir yn mynd i glwydo'n gynnar ar wres mawr***

***Ieir yn rhedeg am gysgod – cawod wnaiff hi***
***Ieir yn aros yn y glaw – mae am fwrw drwy'r dydd***

<u>Iâr ddwr</u>

***Iâr ddwr yn nythu yn uchel*** (h.y. mewn drain neu eithin ger y llyn) – ***llifogydd***
***Iâr ddwr yn nythu yn isel – bydd yn wanwyn / haf sych***

<u>Jac y do</u>

***Y wennol ar y ddaear***
***A swn y tren o bell***
***A jac y do yn clebran***
***Yng ngwaelod Coed y Gell*** (ardal Taeth Dulas, gog.-orllewin Môn). Y tren yw tren Amlwch sydd i'r gorllewin.

<u>Mwyalchen</u>

***Deryn du yn canu yn nechrau'r flwyddyn – tywydd garw yn ystôr***

***Deryn du yn chwibannu'n isel: 'zeeb' – glaw yn fuan***

***Y Deryn du yn sicr iawn o'i ffeithiau; mae'n amser dwad a'r dillad mewn oddiar y lein***

<u>Nyddwr</u>

***Y nyddwr i'w glywed gyda'r nos – braf***

Paun

Gelwir y paun yn *'aderyn y glaw'* am fod ei alwad yn debyg i: 'glaw! glaw!'

***Pan rydd y paun floedd yn hu***
***Fe ddaw y glaw yn lli***

Penfelyn

***Gweld llawer penfelyn – arwydd sicr o law***

Pioden



***Pioden yn codi nyth yn uchel ar goeden – haf sych***
***Pioden yn codi nyth yn isel – haf gwlyb***

***Piod yn swnllyd – glaw***

Pioden fôr

***Piod môr yn dwad i'r caeau – tywydd mawr***

Robin goch

***Robin goch yn dwad at y drws yn y gaeaf – mae'n siwr o fod yn dywydd oer*** Disgrifio beth wna'r tywydd yn hytrach na'i ddarogan.

***Robin goch yn crio – glaw***

Yn yr hydref mae'r robin goch yn dechrau canu cân sy'n wahanol i'w gân yn y gwanwyn; hon yw ei ***'gân y gaeaf'*** ac mae'n arwydd bod y tymor hwnnw ar ei ffordd

Sgrech y coed

***Mae ei galwad yn ragolwg o law***

***Ysgrech y côd!***
***Mae glaw yn dod!*** (Caerfyrddin)

Socan eira

Mae enw'r socan eira yn dweud ei bod yn arwydd o eira.

***Pan fydd heidiau mawr o'r socan eira yn cyrraedd yn yr hydref / ddechrau'r gaeaf mae eira ar ei ffordd***

Titw

Nid yw'r arwyddion yn gwahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o ditwod; titw tomos las, titw mawr ayyb

***Titw yn swnio fel hogi lli – pan y'i clywir daw'n law***

***Cân titw yn Chefror pan fo eira neu farrg – meirioli***

Tylluan

*Tylluan yn crîo 'swit' yn aml – glaw*

*Tylluan yn canu ddechrau y nos – braf*

Y gôg

***Cwcw Cla'me, cosyn dime***
***Cwcw Gwyl Fair, cosyn tair***
Neu: ***Cwcw ha, cosyn da*** . Mae'r caws a wneir yn yr haf yn well na'r caws cynharach a wneir cyn Calan Mai pan fydd y gwartheg yn dal i mewn yn y beudy.

***'Caws y gwcw'*** yn enw ar gaws cynnar

***Os cân y gôg ar berth fo lwm***
***Gwerth dy ebol a phryn dy bwn***
***Os cân y gôg ar berth yn glyd***
***Cadw dy ebol a gwerth dy yd***

***Os cân y gôg ar ddraenllwyn llwm***
***Gwerth dy geffyl a phryna bwn***
***Os cân y gôg ar ddraenllwyn deiliog***
***Cadw dy geffyl a phryna geiliog***

h.y., sala'n byd fydd y cynhaeaf os cyrhaeddith y gôg cyn i'r- llwyni ddeilio.

***Os cân y gôg ar bincyn llwm***
***Gwerth dy geffyl a phryn dy bwn***
***Mis cyn C'lanme cân y coge***
***Mis cyn Awst y cana' inne*** Fis cyn hen Galan Mai (Mai l3eg) – os bydd y gôg yn canu cyn Ebrill 12fed yna bydd cynhaeaf gwair torreithiog. Arferid dechrau'r cynhaeaf ar Orffennaf 1af yn yr ucheldir ac roedd siawns dda y byddai'r gwair wedi ei hel erbyn Gorffennaf 12 fed, sydd fis cyn hen Galan Awst.

***Mis cyn C'lanme cân y coge***
***Mis cyn hynny tyf briallu***

Hefyd am y gôg:
***Fy amser i ganu yw Ebrill a Mai***
***A hanner Mehefin chwi wyddoch bob rhai***

***Pan welith hi gocyn***
***Ni chanith hi gwcw*** Pan welith hi y cocyn gwair ym Mehefin fe dewa.

***Wythnos gyfan cyn Ffair Lliwan*** (Gorffennaf 2il)
***Y rhydd y gwcw ei chân i gadw*** (Maldwyn)



## Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones

Dydd Sadwrn Hydref 18fed
**Cynhadledd flynyddol Cymdeithas Ted Breeze Jones**
Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, 10.30 y.b.
Mwy o fanylion i ddilyn a gellir archebu cinio drwy gysylltu â'r Plas.

Yn ystod y Gynhadledd cynhelir:
ARWERTHIANT O LYFRAU ADAR TED BREEZE JONES
(Drwy garedigrwydd Anwen Breeze Jones)
Bydd yr arian yn mynd i'r Gymdeithas

Dydd Sadwrn Tachwedd 1af
**Taith – Adar Morfa Harlech**
Dan arweiniad Rhodri Dafydd.
Maes Parcio Min y Don, Harlech, 10.00 y.b.

Dydd Sadwrn Tachwedd 15fed
**Taith – Adar Coedydd Llyn Mair**
Dan arweiniad Twm Elias.
Maes Parcio Llyn Mair, Maentwrog, 10.00y.b.

Nos Iau Rhagfyr 11eg
**Noson Nadoligaidd yng nghwmni Iolo Williams**
Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, 7.30 y.h.

**Atlas Adar 2007-2011**
Byddwn yn parhau i gofnodi ar gyfer Atlas Adar 2007-2011 yn ystod y teithiau, a chofiwch chwithau gofnodi ar adegau eraill. Mae ffurflenni cofnodi i'w cael gan Rhodri Dafydd (Cyfeiriad ar dudalen 3).

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

*Plas Tan y Bwlch*
*Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri*

Pob llwyddiant i

**Gymdeithas Ted Breeze Jones**

ac i

**LLYGAD BARCUD**

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig,
neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd,
a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600